CYNGOR TREF PORTHMADOG

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mehefin 11 2024

35.6.24 Presennol: Cynghorwyr :- Aled Griffith; Michael Roberts; John Gwynedd Roberts; Gwilym Jones; Alwyn Gruffydd; Llywelyn Rhys; Carol Hayes
Marian Roberts (Clerc)
Absennol : Cyng Connor Westwood

36.6.24 Ymddiheuriadau: Cynghorwyr :- Dr Melfyn Edwards**,** Sandra Bodden Jones

37.6.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

- **Cyfarfod Blynyddol Mai 14 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng John Gwynedd Roberts, Cyng Michael Roberts yn eilio.

- **Cyfarfod Llawn Mai 14 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng John Gwynedd Roberts, Cyng Michael Roberts yn eilio.

38.6.24 Adroddiad y Clerc

Bryn Coffa

- 2 drydanwr wedi cadarnhau nad oes cyflenwad trydan ar Fryn Coffa ac felly nid oes modd gosod llif oleuadau yno.
- Wedi gofyn i 3 contractwr am bris i osod canllaw ar ganol y grisiau ac wedi derbyn 2 amcanbris am y gwaith (gweler 45.6.24).
- **Lloches bws Morfa Bychan** wedi cael ei fandaleiddio felly wedi cael pris o £861.40 gan Designer Signs i'w drwsio. Cytunwyd i fynd ymlaen â'r gwaith.
- **Nadolig** - wedi derbyn cadarnhâd gan Y Ganolfan; The Port; Ceini Giecco eu bod yn fodlon cydweithio â'r Cyngor Tref i drefnu gweithgaredd Nadolig ar y cyd eleni.
- **Draig** – wedi derbyn gwybodaeth bod rhodd o ddraig am gael ei gosod ar dir yr harbwr.

39.6.24 Datgan diddordeb.
Cyng Llywelyn Rhys – gohebiaeth Richard Shirres 53.6.24

40.6.24 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0367/44/LL (wedi ebostio 17.5.24)
Lleoliad / Location: Fferm Portreuddyn Ffordd Prenteg, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SN
Bwriad / Proposal: Codi strwythur dros iard fwydo / Construction of structure over feeding yard

Penderfynwyd :- ymateb trwy ddatgan amheuon os oedd y safle hwn o fewn dalgylch Ward Tremadog ac yn berthnasol i'r Cyngor Tref neu oedd o o fewn dalgylch Cyngor Cymuned Dolbenmaen a datgan **Dim gwrthwynebiad** yn ôl cynnig Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C24/0402/44/DT (wedi ebostio 29.5.24)
Lleoliad / Location: Ceiriog Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YD
Bwriad / Proposal: Bwriad i osod pwmp gwres ffynhonnell aer llai na 3 metr i ffwrdd o ffin yr eiddo.
Proposing to install an Air Source Heat Pump less than 3 meters from the property boundary.
Penderfynwyd :- **Dim gwrthwynebiad** yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Michael Roberts yn eilio.

DRAFT

41.6.24 MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023-2024**

Penderfynwyd : cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'i anfon i gystadleuaeth Un Llais Cymru yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

42.6.24 Cyng Alwyn Gruffydd - Cynnig ysgrifennu at Trafnidiaeth Cymru i gwyno am y newidiadau i wasanaeth bysiau T2
Clywyd fel y mae'r bws T2 o Aberystwyth i Fangor wedi newid cyfeiriad ac nad ydi bellach yn mynd drwy Dremadog gan yn hytrach droi i gyfeiriad Cricieth wrth drofan Siop Fawr, Porthmadog. Golyga hyn nad oes bws yn mynd yn syth o Dremadog i Ysbyty Gwynedd a bod yn rhaid dal bws T22 o gyfeiriad Blaenau Ffestiniog a newid wedyn yng Nghaernarfon i ddal bws arall i Ysbyty Gwynedd.
Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

43.6.24 Cyng Sandra Bodden Jones – Cynnig gosod amodau ar y Ceisiadau Ariannol, fel bod y sawl sy'n derbyn cyfraniad yn gorfod anfon tystiolaeth (ffotograffig neu dderbyneb) i'r Cyngor o fewn 12 mis i dderbyn yr arian i ddangos bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio i'r pwrpas y gwnaethpwyd cais amdano.
Penderfynwyd :- gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf oherwydd absenoldeb Cyng Sandra Bodden Jones.

44.6.24 Penderfynu ar rodd Medi Harris – gweler llun o waith Bill Swann
Penderfynwyd :- mynd ymlaen â'r pryniant ond gadael geiriad y cyflwyniad tan ar ôl y gemau Olympaidd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

45.6.24 Penderfynu ar gontractwr i osod canllaw ar risiau Bryn Coffa – 2 ddyfynbris wedi dod i law
Penderfynwyd :- derbyn amcanbris Alan Gwynedd Jones i wneud y gwaith.

46.6.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Gorffennaf 9 2024 = Mehefin 29 2024 , (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Llywelyn Rhys** :- Cynnig datgan anfodlonrwydd fod y Clwb Hwylio yn atal mynediad cyhoeddus wrth gloi'r giât i risiau o'r harbwr i lawr i'r môr.
- **Cyng Llywelyn Rhys** :- Cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am 'camper vans' sydd yn aros dros nos mewn sawl lleoliad ym Mhorthmadog.

47.6.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm**).**

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru i gwyno am westeion Premier Inn yn parcio'n anghyfreithlon ar y palmant ac yn atal mynediad i lwybr beicio/cerdded y Cob yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

GOHEBIAETH :

48.6.24	**CWMNI DA**	**Ymateb i gais am gydnabyddiaeth ar raglen Garddio a Mwy** **Penderfynwyd :-** cytuno i dderbyn 'credit' ar ddiwedd y rhaglen yn diolch am ganiatâd y Cyngor Tef i ffilmio yng Nghae Pawb yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd,
49.6.24	**KARENA OWENS**	**Llythyr cais cyfethol i gynrychioli Ward Ddwyreiniol** **Penderfynwyd :-** cyfethol Karena Owens i gynrychioli Ward

		Ddwyreiniol yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.
50.6.24	**TREFOR JONES**	**Llythyr cais cyfethol i gynrychioli Ward Ddwyreiniol** **Penderfynwyd :-** cyfethol Trefor Jones i gynrychioli Ward Ddwyreiniol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Gwilym Jones yn eilio.
51.6.24	**NATIONAL GRID**	**Diweddariad ar brosiect Pentir – Trawsfynydd** **Penderfynwyd:-** derbyn y wybodaeth
52.6.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Ymateb i Tai ar Daith** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a datgan bodlonrwydd am iddynt brynu 2 dŷ ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i bobl lleol.
53.6.24	**RICHARD SHIRRES**	**Risg llifogydd** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac estyn gwahoddiad iddo ddod i gyfarfod y Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.
54.6.24	**JONATHAN JAMES**	**Skatepark** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddweud bod y Cyngor Tref mewn trafodaethau efo National Grid i ddatblygu Cae Chwarae Bodawen ac efallai y byddai hyn yn ychwanegiad at y cynlluniau yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.
55.6.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Ymateb i ymholiad mis Chwefror - Llefydd parcio Canolfan Byw'n Iach** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth
56.6.24	**Y GANOLFAN**	**Ymateb i 18.5.24 Nadolig** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth
57.6.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Tai'r Felin – ffordd unffordd arfaethedig** **Map – Tai'r Felin** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddatgan **Dim Gwrthwynebiad**.
58.6.24	**ADRAN AMGYLCHEDD C.G**	**Ymateb i 7.5.24 Cors Borth y Gest** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am yr ymateb ac i ddweud bod y Cyngor Tref yn edrych ymlaen i weld os bydd eu addewidion yn cael eu gwireddu.
59.6.24	**INITIAL PARKING**	**Ymateb i 19.5.24 cais am ohebiaeth ddwyieithog** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a datgan siom a gyrru copi o'r ohebiaeth i sylw Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

60.6.24 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

H.S.B.C.	Llog Banc Ebrill Mai 2024	£55.40
CYNGOR GWYNEDD	Incwm parcio 2023 – ail daliad	£6,538.11
CYNGOR GWYNEDD	Praesept 2024-2025 taliad 1	£33,481.05
CAE PAWB	Rhent 2024-2025	£290.00

Nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn iach ar hyn o bryd a thrafodwyd y posibilrwydd o symud arian o'r Cyfri Cyfredol i'r Cyfri Cadw. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf yr Is-Bwyllgor Cyllid ar 30.7.24.

Biliau i'w talu :-

Nododd y Clerc fod anfoneb rhif 11 wedi ei ychwanegu i'r rhestr taliadau ac nad oedd wedi ei nodi ar y rhaglen.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Mai 2024	£ 64.07
2	Clerc	Cyflog Clerc Mai 2024	£1,536.86
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Mai 2024	£386.46
4	Clerc	Ad-daliad llyfr 'Receipts & Payments '	£99.60
5	Xerox	Llogi llungopïwr 1.7.24 i 30.9.24	£104.40
6	Clerc	Lwfans gweithio o adref 2024-2025	£300.00
7	Cadeirydd	Lwfans Cadeirydd 2024-2025	£1,200.00
8	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm Lwfans Cadeirydd 2024-2025	£300.00
9	Ashley Hughes	4 x ffeil 'lever arch'; 2 x focs o bapur argraffu	£64.73
10	Gardencraft	Llenwi tybiau blodau	£530.00
11	Arena Group	Llungopîo hyd at 15.5.24	£8.50

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

Marian Roberts
(Clerc)

13.6.24

DRAFT